Busnes@
gwynedd.llyw.cymru

# AROLWG BUSNES 2024

## Adroddiad dadansoddi

Chwefror 2024

# Cynnwys yr Adroddiad

**Cyflwyniad** .... 3
**Canlyniadau** .... 4
**1. Manylion y Busnesau** .... 4
**1.1 Niferoedd** .... 4
**1.2 Sector** .... 4
**1.3 Strwythur** .... 5
**1.4 Lleoliad** .... 5
**1.5 Trosiant** .... 8
**2. Cyflogaeth** .... 9
**2.1 Nodweddion y gweithwyr** .... 9
**2.2 Cyflogau** .... 11
**2.3 Recriwtio** .... 11
**2.4 Sgiliau** .... 12
**3. Heriau mae busnesau yn wynebu** .... 14
**4. Cefnogaeth a Chymorth i Fusnesau** .... 15
**4.1 Cymorth Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd** .... 15
**4.2 Cefnogaeth gyda'r Iaith Gymraeg** .... 16
**4.3 Ffyrdd i Dderbyn Cymorth** .... 16
**4.4 Defnydd o gyfryngau cymdeithasol** .... 18
**4.5 Bwletin Busnes Gwynedd** .... 18
**5. Buddsoddi a Bwriadau** .... 20
**5.1 Dulliau Talu** .... 20
**5.2 Buddsoddi yn y Busnes** .... 20
**5.3 Nod y Busnes yn y 12 mis nesaf** .... 21
**Casgliadau** .... 23
**Atodiad A – Heriau oherwydd lleoliad y busnes** .... 25
**Atodiad B – Camau i gefnogi busnes** .... 26
**Atodiad C – Rhesymau dros newid yn nhrosiant y busnes** .... 27

# Rhestr Tablau


Tabl 1 : Pryd sefydlwyd y busnes ... 4
Tabl 2 : Sector Gweithredu ... 4
Tabl 3 : Strwythur y Busnes ... 5
Tabl 4 : Lleoliad Busnes ... 5
Tabl 5 : Gan feddwl am leoliad eich busnes, beth yw'r heriau? ... 6
Tabl 6 : Beth yw'r pethau gorau o redeg eich busnes yng Ngwynedd? ... 7
Tabl 7 : Trosiant yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf ... 8
Tabl 8: Nifer yn gweithio yn y busnes ... 9
Tabl 9: Nifer gweithwyr llawn amser a rhan-amser ... 9
Tabl 10: Nifer gweithwyr llawn amser a rhan-amser fesul sector ... 9
Tabl 11 : Anawsterau Recriwtio ... 11
Tabl 12 : Rhesymau dros anawsterau recriwtio ... 12
Tabl 13 : Sgiliau eu hangen ar y busnesau ... 12
Tabl 14 : Tabl heriau ... 14
Tabl 15 : Rhesymau nad ydy'r busnesau wedi derbyn cymorth gan Dîm Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd ... 15
Tabl 16 : Cefnogaeth gyda'r Iaith Gymraeg ... 16
Tabl 17 : Sut hoffi derbyn cymorth a chefnogaeth ... 16
Tabl 18 : Defnydd o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo busnes ... 18
Tabl 19 : Cyfryngau cymdeithasol i dderbyn gwybodaeth busnes ... 18
Tabl 20 : Sylwadau am y Bwletin Busnes ... 18
Tabl 21 : Rhesymau atal busnesau fuddsoddi yn eu busnes ... 20
Tabl 22 : Pe byddech chi'n buddsoddi yn eich busnes, beth fyddech chi'n buddsoddi ynddo? ... 21
Tabl 23 : nod ar gyfer y busnes dros y 12 mis nesaf ... 21
Tabl 24 : Beth ydych chi'n rhagweld fydd yn effeithio fwyaf ar eich busnes yn ystod y 12 mis nesaf? ... 22


# Rhestr Ffigyrau


Ffigwr 1 : Gan feddwl am leoliad eich busnes, pa gamau sydd eu hangen i gefnogi busnesau yno? .. 6
Ffigwr 2 : Camau i gefnogi busnesau fesul lleoliad ... 7
Ffigwr 3 : Oedran y gweithwyr ... 10
Ffigwr 4 : Oedran y gweithwyr fesul sector ... 11
Ffigwr 5 : Ydych chi'n hyderus y byddwch yn gallu recriwtio'r sgiliau hyn i'r dyfodol? ... 13
Ffigwr 6 : Heriau mae busnesau yn wynebu ... 14
Ffigwr 7 : Busnesau wedi derbyn cymorth gan Dîm Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd yn y 12 mis diwethaf ... 15
Ffigwr 8 : Pa fath o gymorth a chyngor fyddech chi'n elwa o'i dderbyn ... 16
Ffigwr 9 : Amser gellid ei ymrwymo i dderbyn cyngor a chymorth busnes ... 17
Ffigwr 10 : Ydych chi'n awyddus i aelod o dîm Cymorth Busnes Cyngor Gwynedd gysylltu i drafod y gefnogaeth allai fod ar gael? ... 17
Ffigwr 11 : Dulliau talu yn y dyfodol ... 20

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau Arolwg Busnes Gwynedd ar gyfer 2024.

Cynhaliwyd yr arolwg yn electronig ar wefan Cyngor Gwynedd a chafodd ei hyrwyddo drwy:

- Anfon gwahoddiad electronig i gwblhau'r arolwg at dderbynwyr Bwletin Busnes Gwynedd;
- Anfon gwahoddiad agored i fusnesau gwblhau'r arolwg drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Cyngor Gwynedd;
- Gwahoddiad agored i fusnesau gwblhau'r arolwg ar wefan Cyngor Gwynedd.

**Bu i 130 busnes ymateb i'r arolwg.**

# Canlyniadau

## 1. Manylion y Busnesau

### 1.1 Niferoedd

O’r 130 busnes atebodd yr arolwg, roedd 56 (43.1%) ohonynt wedi eu sefydlu yn ardal Arfon, 38 (29.2%) ohonynt wedi eu sefydlu yn ardal Dwyfor a 36 (27.7%) ohonynt wedi eu sefydlu yn ardal Meirionnydd.

Roedd 40 (30.8%) o’r busnesau wedi eu sefydlu cyn y flwyddyn 2000. Roedd 32 (24.6%) o’r busnesau wedi eu sefydlu ers y flwyddyn 2020.

***Tabl 1 : Pryd sefydlwyd y busnes***

| Cyfnod | Nifer | Fel % |
|---|---:|---:|
| 1920au | 4 | 3.1% |
| 1950au | 1 | 0.8% |
| 1960au | 7 | 5.4% |
| 1970au | 5 | 3.8% |
| 1980au | 14 | 10.8% |
| 1990au | 9 | 6.9% |
| 2000 i 2009 | 19 | 14.6% |
| 2010 i 2019 | 39 | 30.0% |
| 2020 ymlaen | 32 | 24.6% |
| **Cyfanswm** | **130** | **100.0%** |

### 1.2 Sector

Roedd y busnesau yn cynrychioli amryw sector, fel y gwelir yn Nhabl 2, gyda’r gyfran uchaf (38.5%) o ymatebwyr oddi fewn i’r sector Gwesty/Llety arall. Roedd 19 (14.6%) yn y sector manwerthu a 13 (10.0%) yn y sector gwerthu bwyd/diod.

***Tabl 2 : Sector Gweithredu***

| Sector | Nifer | Fel % |
|---|---:|---:|
| Adeiladwaith | 3 | 2.3% |
| Cyfryngau | 2 | 1.5% |
| Cynhyrchu bwyd | 1 | 0.8% |
| Digidol | 1 | 0.8% |
| Ffermio | 3 | 2.3% |
| Gwasanaeth i fusnesau | 2 | 1.5% |
| Gwasanaethau ariannol | 1 | 0.8% |
| Gwerthu bwyd a/neu diod | 13 | 10.0% |
| Gwesty/Llety arall | 50 | 38.5% |
| Hamdden/Adloniant | 7 | 5.4% |
| Iechyd/Gofal | 4 | 3.1% |

| | | |
|---|---:|---:|
| Manwerthu | 19 | 14.6% |
| Proffesiynol, gwyddonol, technegol | 8 | 6.2% |
| Trafnidiaeth | 2 | 1.5% |
| Trin Gwallt, harddwch a'r tebyg | 4 | 3.1% |
| Arall | 10 | 7.7% |
| **Cyfanswm** | **130** | **100.0%** |

## 1.3 Strwythur

Gofynnwyd i'r busnesau nodi strwythur eu busnes. Gweler o Dabl 3 isod bod y mwyafrif 43.1% o'r busnesau yn gweithredu fel masnachwyr unigol.

***Tabl 3 : Strwythur y Busnes***

| Strwythur | Nifer | Fel % |
|---|---:|---:|
| Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC) | 1 | 0.8% |
| Cwmni Cyfyngedig drwy warant | 11 | 8.5% |
| Cwmni preifat cyfyngedig drwy gyfranddaliadau | 35 | 26.9% |
| Masnachwr Unigol | 56 | 43.1% |
| Partneriaeth | 23 | 17.7% |
| Arall | 4 | 3.1% |
| **Cyfanswm** | **130** | **100.0%** |

## 1.4 Lleoliad

Gofynnwyd iddynt nodi lleoliad eu busnes. Gweler yn nhabl 4 mae gwesty/llety gwyliau oedd y lleoliad ar gyfer bron i draean (30.0%) o'r busnesau.

***Tabl 4 : Lleoliad Busnes***

| Lleoliad busnes | Arfon | Dwyfor | Meirionnydd | Cyfanswm | Fel % |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|
| Eiddo masnachol yng nghanol dinas/tref | 21 | 10 | 5 | 36 | 27.7% |
| Eiddo mewn stad ddiwydiannol | 4 | 2 | 0 | 6 | 4.6% |
| Gweithio o gartref | 10 | 4 | 4 | 18 | 13.8% |
| Gwesty / Llety gwyliau | 10 | 10 | 19 | 39 | 30.0% |
| Swyddfa mewn stad ddiwydiannol | 1 | 0 | 0 | 1 | 0.8% |
| Swyddfa yng nghanol dinas/tref | 2 | 2 | 1 | 5 | 3.8% |
| Arall | 8 | 10 | 7 | 25 | 19.2% |
| **Cyfanswm** | **56** | **38** | **36** | **130** | **100.0%** |

Rhoddwyd restr o heriau posibl y gallai'r busnesau eu hwynebu oherwydd lleoliad eu busnes. Mae Tabl 5 yn dangos y ganran o'r busnesau oedd yn cytuno bod yr heriau yn bodoli ar gyfer lleoliad eu busnes. Costau cynnal yr eiddo oedd mwyafrif (56.9%) o'r busnesau yn gredu oedd yn her iddynt hwy. Roedd ychydig o amrywiaeth o ran y busnesau yn y gwahanol ardaloedd gyda 63.9% o fusnesau Meirionnydd yn credu bod costau cynnal yr eiddo yn her, gyda 60.5% yn Dwyfor a 50.0% yn Arfon.

Roedd bron i chwarter y busnesau (23.8%) yn credu bod diffyg trafnidiaeth leol a diffyg parcio lleol yn her roedd eu busnes yn wynebu.

Gweler bod tipyn o wahaniaeth yn y ganran o fusnesau sydd yn credu bod trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn her iddynt yn Arfon o'i gymharu â busnesau yn Nwyfor a Meirionnydd. Roedd dros chwarter (26.8%) o fusnesau Arfon yn credu bod hyn yn her iddynt o'i gymharu â 10.5% yn Nwyfor a 2.8% ym Meirionnydd.


***Tabl 5 : Gan feddwl am leoliad eich busnes, beth yw'r heriau?***

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau cynnal yr eiddo | 50.0% | 60.5% | 63.9% | 74 | 56.9% |
| Trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | 26.8% | 10.5% | 2.8% | 20 | 15.4% |
| Diffyg trafnidiaeth leol | 21.4% | 18.4% | 33.3% | 31 | 23.8% |
| Diffyg parcio lleol | 25.0% | 23.7% | 22.2% | 31 | 23.8% |
| Diffyg cysylltedd rhyngrwyd | 16.1% | 10.5% | 19.4% | 20 | 15.4% |
| Diffyg rhwydweithiau Cymorth busnes | 21.4% | 13.2% | 25.0% | 26 | 20.0% |

**Gweler manylder am yr heriau yma yn* ***Atodiad A****.*


Wrth feddwl am leoliad eu busnes gofynnwyd i'r busnesau pa gamau fyddai yn eu cefnogi. Y cam mwyaf poblogaidd oedd i leihau trethi busnes, a'r cam lleiaf poblogaidd oedd i gynnig benthyciadau busnes. Mae Ffigwr 1 yn dangos y canlyniadau yn llawn.

***Ffigwr 1 : Gan feddwl am leoliad eich busnes, pa gamau sydd eu hangen i gefnogi busnesau yno?***




Roedd amrywiaeth o ran y camau oedd busnesau mewn gwahanol leoliadau eu hangen. Gweler Ffigwr 2 ar gyfer y dadansoddiad. Gweler manylder am y camau yma yn **Atodiad B**.

*Ffigwr 2 : Camau i gefnogi busnesau fesul lleoliad*




Roedd cyfle i'r busnesau nodi "Beth yw'r pethau gorau o redeg eich busnes yng Ngwynedd?". Bu i 98 o'r busnesau wneud sylw. Roedd cyfle iddynt nodi mwy nac un sylw. Mae Tabl 6 yn dangos y canlyniadau.

Bu bron i chwarter (24.1%) y busnesau nodi mae'r lleoliad – cael gweithio mewn rhan hyfryd o'r wlad oedd un o'r pethau gorau am redeg eu busnes yng Ngwynedd. Ar y llaw arall doedd 16 (11.7%) o'r busnesau ddim yn credu bod unrhyw beth da am redeg eu busnes yng Ngwynedd.

*Tabl 6 : Beth yw'r pethau gorau o redeg eich busnes yng Ngwynedd?*

| Rhesymau | Nifer | Fel % |
|---|---:|---:|
| Rhan hyfryd o'r wlad | 33 | 24.1% |
| Cefnogaeth y gymuned leol | 18 | 13.1% |
| Does dim byd da | 16 | 11.7% |
| Ardal sy'n denu ymwelwyr | 14 | 10.2% |
| Gweithio yn lle ges i fy magu | 12 | 8.8% |
| Gallu gweithio drwy'r Gymraeg | 11 | 8.0% |
| Adnabod ein cwsmeriaid | 8 | 5.8% |
| Cysylltiadau rhwng busnesau | 5 | 3.6% |
| Gallu gweithio o gartref | 4 | 2.9% |
| Hanes a diwylliant yr ardal | 3 | 2.2% |
| Rhenti isel | 2 | 1.5% |
| Trethi Busnes isel | 2 | 1.5% |
| Cefnogaeth Llywodraeth Cymru | 2 | 1.5% |
| Digon o waith | 2 | 1.5% |

| | | |
|---|---|---|
| Gallu gweithio yn hunan gyflogedig | 2 | 1.5% |
| Cyflogau isel | 1 | 0.7% |
| Dim gormod o draffig | 1 | 0.7% |
| Ardal saff | 1 | 0.7% |

## 1.5 Trosiant

I gael syniad o faint y busnesau holwyd am eu trosiant yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Roedd trosiant y busnesau yn amrywio gyda tua hanner (51.6%) ohonynt gyda trosiant hyd at £100,000, roedd 38.5% ohonynt gyda trosiant dros £100,000. Roedd yn well gan 13 o'r busnesau beidio datgan eu trosiant.

Bu i 26 (20.0%) o'r busnesau nodi bod eu trosiant wedi cynyddu yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, 62 (47.7%) ohonynt wedi gostwng, 33 (25.4%) wedi aros yr un fath a 9 (6.9%) busnes heb ateb y cwestiwn.

O'r 62 busnes oedd wedi nodi bod eu trosiant wedi gostwng, roedd bron i hanner (46.8%) ohonynt yn y sector gwesty/llety arall. Diffyg ymwelwyr yn dod i aros i'r ardal oedd eu rheswm pennaf am y gostyngiad mewn trosiant, ynghyd â'r rheol meddiannaeth 182 dydd newydd a thywydd gwael.

Gweler manylder rhesymau'r busnesau am unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn eu trosiant yn **Atodiad C**.

***Tabl 7 : Trosiant yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf***

| Trosiant | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| 0-£50,000 | 40 | 30.8% |
| £50,001 - £100,000 | 27 | 20.8% |
| £100,001 - £250,000 | 19 | 14.6% |
| £250,001 - £500,000 | 10 | 7.7% |
| £500,001 - £1,000,000 | 9 | 6.9% |
| £1,000,001 - £2,000,000 | 10 | 7.7% |
| £2,000,001 - £5,000,000 | 2 | 1.5% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 13 | 10.0% |
| **Cyfanswm** | **130** | **100.0%** |

## 2. Cyflogaeth

### 2.1 Nodweddion y gweithwyr

Mae mwyafrif o'r busnesau sydd wedi ymateb i'r arolwg (82.3%) yn fusnesau micro o ran maint – gyda rhwng 1 a 9 o weithwyr. Dim ond 3 busnes oedd gan rhwng 50 a 150 o weithwyr a nid oedd yr un busnes gyda mwy na 150 o weithwyr wedi ymateb i'r arolwg.

Mae Tabl 9 yn dangos fesul maint y busnesau sawl gweithiwr sydd yn rhan a llawn amser. Mewn cyfanswm mae yna 1,318 o weithwyr ar gyfer y 130 busnes. O rhain mae 44.2% ohonynt yn weithwyr llawn amser a 55.8% yn gweithio yn rhan amser.

***Tabl 8: Nifer yn gweithio yn y busnes***

| Nifer staff | Nifer | Fel % |
|---|---:|---:|
| 1 | 23 | 17.7% |
| 2 – 9 | 84 | 64.6% |
| 10 – 49 | 20 | 15.4% |
| 50 – 150 | 3 | 2.3% |
| Mwy na 150 | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **130** | **100.0%** |

***Tabl 9: Nifer gweithwyr llawn amser a rhan-amser***

| Nifer gweithwyr | Llawn amser | Rhan amser |
|---|---:|---:|
| 1 | 15 | 8 |
| 2 – 9 | 160 | 154 |
| 10 – 49 | 289 | 531 |
| 50 – 150 | 119 | 42 |
| Mwy na 150 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **583** | **735** |

Mae Tabl 10 yn dangos canran y gweithwyr sydd yn gweithio llawn neu rhan amser fesul sector. Mae mwy o weithwyr rhan amser mewn pedwar sector o'i gymharu â gweithwyr llawn amser. Y sectorau yma ydi'r sector Gwasanaeth i fusnesau, gwerthu bwyd/diod, gwesty/llety arall a'r sector trin gwallt/harddwch.


***Tabl 10: Nifer gweithwyr llawn amser a rhan-amser fesul sector***

| Sector | Cyfanswm gweithwyr | Llawn amser | Rhan amser |
|---|---:|---:|---:|
| Adeiladwaith | 16 | 87.5% | 12.5% |
| Cyfryngau | 6 | 83.3% | 16.7% |
| Cynhyrchu Bwyd/Diod | 1 | 100.0% | 0.0% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Digidol | 9 | 100.0% | 0.0% |
| Ffermio | 8 | 87.5% | 12.5% |
| Gwasanaeth i fusnesau | 3 | 33.3% | 66.7% |
| Gwasanaethau ariannol | 25 | 92.0% | 8.0% |
| Gwerthu bwyd a/neu diod | 454 | 13.2% | 86.8% |
| Gwesty/Llety arall | 315 | 41.3% | 58.7% |
| Hamdden/Adloniant | 65 | 66.2% | 33.8% |
| Iechyd/Gofal | 84 | 82.1% | 17.9% |
| Manwerthu | 58 | 55.2% | 44.8% |
| Proffesiynol, gwyddonol, technegol | 93 | 78.5% | 21.5% |
| Trafnidiaeth | 115 | 73.9% | 26.1% |
| Trin Gwallt, harddwch a'r tebyg | 10 | 30.0% | 70.0% |
| Arall | 56 | 50.0% | 50.0% |
| **Cyfanswm** | **1,318** | **44.2%** | **55.8%** |


Holwyd am oedran y gweithwyr, ond ni fu i bob busnes ateb y cwestiwn yma. O'r cyfanswm 1,318 o staff cafwyd oedran ar gyfer 1,019 ohonynt. Mae Ffigwr 3 yn dangos dosbarthiad oed y gweithwyr. Gwelir bod y ganran uchaf o weithwyr yn y band oedran 16 – 24 oed a'r ganran isaf yn y band oed 64+.

***Ffigwr 3 : Oedran y gweithwyr***




Mae modd edrych hefyd ar oedran y gweithwyr fesul sector fel gwelir yn Ffigwr 4. Roedd dros hanner y gweithwyr yn y sector gwerthu bwyd/diod (50.6%) a'r sector trin gwallt/harddwch (50.0%) yn y band oedran ieuengaf sef rhwng 16 a 24 oed. Ychydig iawn o weithwyr y sector trafnidiaeth oedd o dan 45 oed gan bod 86.5% ohonynt yn 45 oed neu hŷn.

*Ffigwr 4 : Oedran y gweithwyr fesul sector*




## 2.2 Cyflogau

Gofynnwyd i'r busnesau "A ydych yn talu'r Cyflog Byw gwirioneddol i'ch gweithwyr?". Bu i 119 allan o'r 130 busnes ymateb. Roedd 88 (73.9%) o'r busnesau atebodd yn talu'r cyflog byw gwirioneddol i'w gweithwyr.

## 2.3 Recriwtio

Roedd 47 (36.2%) o'r busnesau wnaeth ymateb i'r arolwg wedi profi problemau recriwtio ar gyfer eu busnes.

*Tabl 11 : Anawsterau Recriwtio*

| Wedi profi anhawster wrth recriwtio | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| Do | 47 | 36.2% |
| Naddo | 61 | 46.9% |
| Heb ateb | 22 | 16.9% |
| **Cyfanswm** | **130** | **100.0%** |

O'r sylwadau wnaeth y busnesau yma diffyg profiad neu sgiliau perthnasol oedd y prif anhawster wrth recriwtio gyda 25.6% wedi nodi hyn. Problem arall gafodd eu nodi gan 17.9% oedd nad oedd pobl isio gweithio bellach a bod yn well ganddynt fod ar fudd-daliadau. Gweler sylwadau llawn yn Tabl 12, lle bu i 39 allan o'r 47 busnes wneud sylw am eu problemau recriwtio.

*Tabl 12 : Rhesymau dros anawsterau recriwtio*

| Sylwad | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| Diffyg profiad/sgiliau perthnasol | 10 | 25.6% |
| Neb eisiau gweithio - gwell bod ar fudd-daliadau | 7 | 17.9% |
| Anodd cael staff dibynadwy | 4 | 10.3% |
| Staff yn disgwyl cyflogau rhy uchel | 4 | 10.3% |
| Dim digon o arian ar gyfer prentisiaethau | 3 | 7.7% |
| Ddim llawer eisiau gwaith tymhorol | 3 | 7.7% |
| Pobl leol yn symud i ffwrdd o'r ardal | 2 | 5.1% |
| Dim gweithwyr yn yr ardal | 2 | 5.1% |
| Gormod eisiau "cash in hand" | 2 | 5.1% |
| Dim digon o waith i allu penodi mwy o staff | 1 | 2.6% |
| Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus | 1 | 2.6% |
| **Cyfanswm** | **39** | **100.0%** |

## 2.4 Sgiliau


O ran y sgiliau roedd y busnesau eu hangen ar gyfer eu busnes bu i 70 allan o'r 130 gynnig ateb. Bu i rai busnesau nodi sawl sgil roeddynt eu hangen.

*Tabl 13 : Sgiliau eu hangen ar y busnesau*

| Sgiliau | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| Sgiliau digidol - cyfryngau cymdeithasol, y we ayyb | 15 | 15.3% |
| Sgiliau diwydiant arlwyo e.e. chef, gweinyddion, blaen tŷ | 15 | 15.3% |
| Sgiliau marchnata | 12 | 12.2% |
| Dim sgiliau penodol - ond bod yn barod i ddysgu | 11 | 11.2% |
| Sgiliau crefftwyr - adeiladu, trydanwyr, plymio, mecanics | 10 | 10.2% |
| Sgiliau proffesiynol e.e. cyfrifwyr, gweinyddol, rheolwyr | 9 | 9.2% |
| Llafur di-grefft e.e glanhawyr | 9 | 9.2% |
| Sgiliau cyfathrebu da | 7 | 7.1% |
| Gyrwyr/ Trwydded yrru | 4 | 4.1% |
| Gallu siarad Cymraeg | 2 | 2.0% |
| Sgiliau trin anifeiliaid | 1 | 1.0% |
| Gweithredydd camera | 1 | 1.0% |
| Sgiliau trin gwallt | 1 | 1.0% |
| Cymwysterau gofal plant | 1 | 1.0% |

Wrth holi'r 70 busnes os oeddynt yn hyderus y buasent yn gallu recriwtio ar gyfer y sgiliau hyn yn y dyfodol dim ond 13 (18.6%) ohonynt oedd yn credu na fuasent yn cael problemau. Roedd 4 (5.7%) busnes arall yn credu buasai rhaid iddynt fynd oddi allan i Wynedd i gael y sgiliau yma, ond na fuasai hynny yn broblem iddynt. Roedd 7 (10.0%) arall yn obeithiol o allu recriwtio os buasent yn derbyn cymorth i wneud hynny. Felly nid oedd dau draean o'r busnesau yn ffyddiog y buasent yn gallu recriwtio'r sgiliau hyn yn y dyfodol.

***Ffigwr 5 : Ydych chi'n hyderus y byddwch yn gallu recriwtio'r sgiliau hyn i'r dyfodol?***




## 3. Heriau mae busnesau yn wynebu

Gofynnwyd i'r busnesau rancio gwahanol heriau bu iddynt wynebu dros y flwyddyn ddiwethaf gan nodi sgôr o 5 ar gyfer y rhai mwyaf heriol. Gweler yr ymatebion yn Ffigwr 6. Cynnydd mewn prisiau ynni oedd yr her fwyaf gan y busnesau llynedd gyda 59.2% wedi rhoi sgôr o 4 neu 5. Dim ond 10.0% oedd yn credu bod marchnata yn her wirioneddol iddyn nhw.

Cafodd y busnesau gyfle i nodi effaith mae'r heriau yma wedi gael ar eu busnes dros y flwyddyn ddiwethaf. Bu i 86 busnes wneud sylw, gyda rhai yn cynnig mwy nac un effaith ar eu busnes. Gweler yr ymatebion yn Nhabl 14 isod.

***Ffigwr 6 : Heriau mae busnesau yn wynebu***




***Tabl 14 : Tabl heriau***


| Prif heriau | Nifer | Fel % |
|---|---:|---:|
| Costau yn cynyddu | 35 | 40.7% |
| Rheoliadau newydd | 25 | 29.1% |
| Diffyg cwsmeriaid | 12 | 14.0% |
| Methu recriwtio staff | 9 | 10.5% |
| Anhawster wrth ddelio gyda Chyngor Gwynedd | 9 | 10.5% |
| Diffyg arian - methu buddsoddi | 3 | 3.5% |
| Ddim yn siŵr sut i farchnata fy musnes ar-lein | 1 | 1.2% |

## 4. Cefnogaeth a Chymorth i Fusnesau

### 4.1 Cymorth Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd

O ran derbyn cymorth gan Dîm Cymorth Busnes Cyngor Gwynedd yn y 12 mis diwethaf, dim ond 17 (13.1%) o'r busnesau oedd wedi derbyn cymorth.

***Ffigwr 7 : Busnesau wedi derbyn cymorth gan Dîm Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd yn y 12 mis diwethaf***





Rhoddwyd cyfle i'r 99 busnes oedd heb dderbyn y cymorth nodi rhesymau pam. O'r 99 rhoddwyd rheswm gan 69 ohonynt.

***Tabl 15 : Rhesymau nad ydy'r busnesau wedi derbyn cymorth gan Dîm Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd***

| **Rheswm** | **Nifer** | **Fel %** |
|---|---|---|
| Ddim yn cynnig y cymorth dwi angen / perthnasol | 30 | 43.5% |
| Ddim yn ymwybodol o'r cymorth | 23 | 33.3% |
| Wedi ymgeisio am grantiau ond ddim yn llwyddiannus / proses grantiau yn llafurus | 8 | 11.6% |
| Dim amser / amser anghyfleus | 5 | 7.2% |
| Heb glywed dim yn ôl gennych | 3 | 4.3% |
| **Cyfanswm** | **69** | **100.0%** |

Roedd cyfle i'r busnesau nodi pa fath o gymorth fyddai o fudd iddynt dros y 12 mis nesaf. Roedd 37 (28.5%) busnes eisiau cymorth gyda marchnata a chyfathrebu.

*Ffigwr 8 : Pa fath o gymorth a chyngor fyddech chi'n elwa o'i dderbyn*




## 4.2 Cefnogaeth gyda'r Iaith Gymraeg

Holwyd y busnesau pa gymorth gyda'r Iaith Gymraeg fyddai yn ddefnyddiol i'w busnes hwy. Ar y cyfan roedd y gofyn am y cymorth yma yn weddol isel. Gweler y ffigyrau yn Nhabl 16 isod.

*Tabl 16 : Cefnogaeth gyda'r Iaith Gymraeg*

| Math o gefnogaeth | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| Cyfieithu | 21 | 16.2% |
| Marchnata yn Gymraeg | 21 | 16.2% |
| Hyfforddiant iaith | 20 | 15.4% |
| Gwybodaeth am gymhorthdal gydag arwyddion blaen siop dwyieithog | 16 | 12.3% |
| Geirfa syml | 12 | 9.2% |
| Ymwybyddiaeth iaith | 10 | 7.7% |
| Cerddoriaeth Gymraeg | 8 | 6.2% |
| Manteision o gyfarch / diolch yn Gymraeg | 8 | 6.2% |
| Cyngor am eu Cymraeg | 5 | 3.8% |

## 4.3 Ffyrdd i Dderbyn Cymorth

Er mwyn ceisio deall sut a phryd fyddai'r busnesau yn hoffi derbyn cymorth a chefnogaeth rhoddwyd cyfle iddynt nodi'r opsiynau roeddynt y neu ffafrio. Cymorth un i un mewn person oedd yr opsiwn mwyaf poblogaidd ymysg y busnesau.


*Tabl 17 : Sut hoffi derbyn cymorth a chefnogaeth*

| Sut i dderbyn cefnogaeth | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| Cymorth un i un mewn person | 48 | 36.9% |
| Digwyddiadau grŵp mewn person | 24 | 18.5% |

| | | |
|---|---|---|
| Cymorth un i un dros e-bost | 23 | 17.7% |
| Cymorth un i un ar-lein | 20 | 15.4% |
| Digwyddiadau grŵp ar-lein | 20 | 15.4% |
| Cymorth un i un dros y ffôn | 17 | 13.1% |
| Pamffledi gwybodaeth | 17 | 13.1% |
| Cymorth un i un dros WhatsApp | 13 | 10.0% |
| Arall | 6 | 4.6% |


O ran amser roedd y busnesau yn gallu ei ymrwymo i unrhyw sesiynau cymorth roedd y mwyafrif yn ffafrio rhwng 1 a 3 awr y mis. Ni fu i 40 o'r busnesau ateb y cwestiwn yma.

***Ffigwr 9 : Amser gellid ei ymrwymo i dderbyn cyngor a chymorth busnes***




Roedd 40.8% o'r busnesau wnaeth ymateb i'r arolwg yn awyddus i'r Cyngor gysylltu â hwy i drafod y gefnogaeth posib fyddai ar gael iddynt.

***Ffigwr 10 : Ydych chi'n awyddus i aelod o dîm Cymorth Busnes Cyngor Gwynedd gysylltu i drafod y gefnogaeth allai fod ar gael?***



## 4.4 Defnydd o gyfryngau cymdeithasol

Mae Tabl 18 yn dangos y cyfrwng cymdeithasol nododd y busnesau maent yn ddefnyddio i hyrwyddo eu busnes. Bu i 99 o'r busnesau ateb y cwestiwn yma. Gweler mai Facebook mae'r mwyafrif o'r busnesau yn ddefnyddio i hyrwyddo eu busnes.

***Tabl 18 : Defnydd o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo busnes***

| Cyfrwng | Nifer | Fel % |
|---|---:|---:|
| Facebook | 37 | 37.4% |
| Cyfuniad o gyfryngau cymdeithasol gwahanol | 29 | 29.3% |
| Instagram | 23 | 23.2% |
| LinkedIn | 7 | 7.1% |
| TikTok | 2 | 2.0% |
| X (Twitter) | 1 | 1.0% |
| **Cyfanswm** | **99** | **100.0%** |

Holwyd hefyd pa gyfrwng cymdeithasol fyddai orau gan y busnesau i dderbyn gwybodaeth busnes. Eto Facebook oedd y cyfrwng mwyaf poblogaidd.

***Tabl 19 : Cyfryngau cymdeithasol i dderbyn gwybodaeth busnes***

| Cyfrwng | Nifer | Fel % |
|---|---:|---:|
| Facebook | 51 | 39.2% |
| Instagram | 23 | 17.7% |
| Arall | 16 | 12.3% |
| LinkedIn | 14 | 10.8% |
| X (Twitter) | 11 | 8.5% |
| TikTok | 3 | 2.3% |

## 4.5 Bwletin Busnes Gwynedd

Cymerwyd y cyfle i holi'r busnesau â oeddynt yn derbyn y bwletin busnes gan Cyngor Gwynedd, ac yn wir roedd 82 (63.1%) yn ei dderbyn. Nid oedd 22 (16.9%) wedi ateb y cwestiwn, sy'n gadael 26 (20.0%) o'r busnesau oedd ddim yn derbyn y bwletin.

Ni fu i lawer o'r busnesau roi sylw ynglŷn â'r bwletin busnes. Nododd 46 busnes sylwadau am y bwletin busnes.

***Tabl 20 : Sylwadau am y Bwletin Busnes***

| Sylwad | Nifer | Fel % |
|---|---:|---:|
| Gwerthfawrogi'r bwletin busnes | 12 | 26.1% |
| Gwybodaeth yn amherthnasol | 11 | 23.9% |
| Dim digon o wybodaeth ynddo | 10 | 21.7% |
| Cyhoeddi yn rhy aml | 4 | 8.7% |
| Ddim yn cael ei gyhoeddi yn amserol | 4 | 8.7% |

| | | |
|---|---|---|
| Ddim digon aml | 2 | 4.3% |
| Ddim yn ymwybodol ohono | 2 | 4.3% |
| Ddim yn ei dderbyn bellach | 1 | 2.2% |
| **Cyfanswm** | **46** | **100.0%** |


# 5. Buddsoddi a Bwriadau

## 5.1 Dulliau Talu

Gofynnwyd i'r busnesau pa ddull talu yr oeddynt eisiau eu cwsmeriaid ddefnyddio yn y dyfodol a'r rhesymau dros eu dewis. Roedd 52 (40.0%) o'r busnesau yn ffafrio trosglwyddiad banc fel dull, tra nad oedd gan 28 (21.5%) ddim opsiwn roeddynt yn ei ffafrio.

Roedd y busnesau wnaeth gynnig sylw yn nodi bod trosglwyddiadau banc a defnyddio arian parod yn well gan ei fod yn golygu llai o ffioedd gan y banc. Roeddynt hefyd yn dweud ei bod yn bwysig cadw arian parod mewn cymdeithas. Roedd y busnesau oedd yn ffafrio defnydd cerdyn banc/ffôn yn nodi ei fod yn hawdd ac yn syml i gwsmeriaid ei ddefnyddio gan nad oes llawer yn cario arian parod mwyach.

*Ffigwr 11 : Dulliau talu yn y dyfodol*




## 5.2 Buddsoddi yn y Busnes

Holwyd y busnesau "A oes unrhyw beth ar hyn o bryd yn eich atal rhag buddsoddi yn eich busnes?" a bu i 104 o'r busnesau gynnig sylwadau. O'r rhai atebodd dim ond 9 (7.7%) o'r busnesau oedd yn credu nad oedd ganddynt rwystr rhag buddsoddi. Roedd 27 (23.1%) o'r busnesau yn poeni am reoliadau newydd sydd yn cael effaith ar eu busnes.

*Tabl 21 : Rhesymau atal busnesau fuddsoddi yn eu busnes*

| Sylwad | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| Cydymffurfio gyda rheoliadau newydd gan Llywodraeth Cymru / Cyngor Gwynedd | 27 | 23.1% |
| Ansicrwydd dyfodol y busnes | 16 | 13.7% |

| | | |
|---|---|---|
| Diffyg llif arian | 12 | 10.3% |
| Costau uchel i redeg y busnes | 10 | 8.5% |
| Nac oes | 9 | 7.7% |
| Llai o gwsmeriaid | 9 | 7.7% |
| Methu/anodd cael caniatâd cynllunio | 9 | 7.7% |
| Mynediad at adnodd ariannol | 9 | 7.7% |
| Fy oedran | 5 | 4.3% |
| Diffyg staff/sgiliau yn yr ardal | 5 | 4.3% |
| Diffyg grantiau | 4 | 3.4% |
| Wedi buddsoddi llynedd | 2 | 1.7% |

Holwyd hwy ymhellach ar be fuasent yn buddsoddi ynddo os byddai'r modd ganddynt i wneud. Bu i 98 wneud sylwad. Roedd 44 (44.9%) o'r busnesau am wneud gwelliannau i'w eiddo/adeiladau tra bod 20 (20.4%) am ehangu'r busnes unai drwy agor lleoliad/adeilad newydd neu drwy arallgyfeirio.

***Tabl 22 : Pe byddech chi'n buddsoddi yn eich busnes, beth fyddech chi'n buddsoddi ynddo?***

| Sylwad | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| Cynnal a chadw adeiladau | 44 | 44.9% |
| Ehangu'r busnes | 20 | 20.4% |
| Offer newydd | 15 | 15.3% |
| Gwella allyriadau carbon y busnes | 13 | 13.3% |
| Mwy o staff | 12 | 12.2% |
| Hyfforddi staff | 9 | 9.2% |
| Technoleg | 6 | 6.1% |
| Ail-leoli | 5 | 5.1% |
| Marchnata | 4 | 4.1% |
| Mwy o stoc | 3 | 3.1% |

## 5.3 Nod y Busnes yn y 12 mis nesaf

I'r cwestiwn "Beth yw eich nod ar gyfer y busnes dros y 12 mis nesaf?" bu i 56 (43.1%) o'r busnesau nodi mae eu nod oedd i dyfu'r busnes tra roedd 17 (13.1%) am gau y busnes i lawr oherwydd gwahanol resymau.

***Tabl 23 : nod ar gyfer y busnes dros y 12 mis nesaf***

| Sylwad | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| I dyfu'r busnes | 56 | 43.1% |
| I aros yr un fath | 30 | 23.1% |
| I gau y busnes i lawr | 17 | 13.1% |
| Parhau i fasnachu ond ar lefel lai | 12 | 9.2% |
| Gallu goroesi | 7 | 5.4% |
| Dibynnu ar yr hinsawdd economaidd | 2 | 1.5% |
| Symud lleoliad o Wynedd | 2 | 1.5% |

Holwyd y busnesau "Beth ydych chi'n rhagweld fydd yn effeithio fwyaf ar eich busnes yn ystod y 12 mis nesaf?" Y pryder mwyaf gan y busnesau oedd costau byw a'r effaith mae hyn yn gael barodrwydd/gallu cwsmeriaid i wario. Roedd nifer o'r busnesau twristiaeth yn pryderu am effeithiau Erthygl 4 a threth twristiaeth yn cael eu gyflwyno ar eu busnesau hwy. Roedd 17 (18.1%) o'r busnesau yn poeni am gostau staffio i'r dyfodol, tra bod 11 (11.7%) o'r busnesau yn poeni am allu recriwtio staff newydd. Ceir rhestr gyflawn o'r pryderon yn Tabl 24 isod.

***Tabl 24 : Beth ydych chi'n rhagweld fydd yn effeithio fwyaf ar eich busnes yn ystod y 12 mis nesaf?***

| **Sylwad** | **Nifer** | **Fel %** |
|---|---:|---:|
| Costau byw – pobl yn gwario llai | 28 | 29.8% |
| Erthygl 4 / Rheoliadau cynllunio / Treth twristiaeth | 22 | 23.4% |
| Costau staffio | 17 | 18.1% |
| Methu recriwtio staff | 11 | 11.7% |
| Trethi uchel | 11 | 11.7% |
| Gallu denu ymwelwyr i'r ardal | 11 | 11.7% |
| Niferoedd yn siopa ar y stryd fawr | 11 | 11.7% |
| Costau ynni yn codi | 9 | 9.6% |
| Diffyg dealltwriaeth gan y Cyngor | 7 | 7.4% |
| Rheoliadau newydd | 5 | 5.3% |
| Cael digon o fusnes dros misoedd y gaeaf | 3 | 3.2% |
| Ymddeol | 1 | 1.1% |
| Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus | 1 | 1.1% |
| Diffyg grantiau / cefnogaeth | 1 | 1.1% |
| Methu buddsoddi yn y busnes | 1 | 1.1% |
| Newidiadau mewn technoleg | 1 | 1.1% |

# Casgliadau

O ran casgliadau, mae'r prif ddarganfyddiadau fel a ganlyn:

- Bu i 130 busnes ymateb i'r Arolwg Busnes.
- Roedd y busnesau yn cynrychioli amryw sector busnes, gyda'r gyfran uchaf o ymatebwyr oddi fewn i'r sector gwesty/llety.
- Roedd dros hanner y busnesau wedi eu sefydlu ar neu ar ôl y flwyddyn 2010.
- Roedd dros hanner y busnesau gyda throsiant blynyddol o lai na £100,000, tra bod gan 2 fusnes drosiant blynyddol o rheng £2m a £5m.
- Roedd 82% o'r busnesau yn rhai micro o ran maint gyda rhwng 1 a 9 o weithwyr. Ni fu i fusnes gyda mwy na 150 o weithwyr ymateb i'r arolwg.
- O'r holl weithwyr oedd yn gweithio i'r busnesau roedd 56% ohonynt yn weithwyr rhan amser. Roedd hyn yn amrywio ar draws sectorau gyda 87% o'r staff yn y sector gwerthu bwyda/neu diod yn staff rhan amser.
- Roedd 88 o'r busnesau atebodd yr arolwg yn talu'r cyflog byw gwirioneddol i'w gweithwyr.
- O ran recriwtio roedd 36% o'r busnesau wedi profi anhawster yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd diffyg profiad a sgiliau yn cael eu nodi fel y prif anhawster.
- O ran heriau roedd y busnesau yn eu hwynebu y prif her oedd cynnydd mewn prisiau ynni.
- Nid oedd tri chwarter y busnesau wedi derbyn cymorth gan y Tîm Cefnogi Busnes yng Nghyngor Gwynedd. O rhain y rheswm pennaf dros hyn oedd nad oedd y tîm yn cynnig cymorth perthnasol i'w busnes nhw.
- O ran derbyn cymorth gyda'r Iaith Gymraeg roedd 21 o'r busnesau yn dymuno cael cymorth gyda chyfieithu a marchnata yn y Gymraeg.
- Y ffordd fwyaf poblogaidd o dderbyn cymorth a chefnogaeth gan y busnesau oedd cymorth un i un mewn person. O ran amser roedd y busnesau yn ffafrio neilltuo rhwng 1 a 3 awr y mis ar gyfer hyn.
- Roedd 41% o'r busnesau yn hapus i'r Cyngor gysylltu gyda nhw i drafod cefnogaeth a chymorth sydd ar gael.
- "Facebook" oedd y cyfrwng cymdeithasol mwyaf poblogaidd gan y busnesau i hyrwyddo eu busnes.

- Roedd 63% o'r busnesau eisoes yn derbyn y bwletin busnes ac ar y cyfan roedd y busnesau yn gwerthfawrogi'r bwletin.

- O ran dull talu i'r dyfodol doedd gan 22% o'r busnesau ddim gwahaniaeth yn y dull, roedd 40% yn ffafrio trosglwyddiad banc, 37% yn ffafrio arian parod a 36% yn ffafrio cerdyn banc/ffôn.

- Dim ond 9 o'r busnesau nododd nad oedd ganddynt rwystr rhag buddsoddi yn eu busnes.

- Pe fyddai modd i'r busnesau fuddsoddi roedd 44 ohonynt am fuddsoddi y neu heiddo drwy gynnal a chadw'r a uwchraddio'r adeiladau.

- Roedd 43% o'r busnesau gyda'r nod o dyfu eu busnes dros y 12 mis nesaf, tra roedd 13% am gau y busnes i lawr.

- O ran beth fyddai yn effeithio ar eu busnesau fwyaf yn y 12 mis nesaf roedd 30% o'r busnesau yn credu byddai costau byw yn dylanwadu ar faint roedd cwsmeriaid yn gallu ei wario. O ran y busnesau gwesty/llety roedd Erthygl 4, rheoliadau cynllunio newydd a treth twristiaeth yn mynd i gael effaith ar eu busnesau.

# Atodiad A – Heriau oherwydd lleoliad y busnes

***Tabl i ddangos heriau oerwydd lleoliad y busnes:***

| Heriau | Nifer |
|---|---:|
| Costau Cynnal a chadw eiddo yn cynyddu | 39 |
| Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus | 14 |
| Angen gwella'r meysydd parcio a'u harwyddion | 13 |
| Fandaliaeth / Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Problemau cyffuriau | 11 |
| Costau parcio yn rhy uchel | 9 |
| Cyngor / Y Parc Cenedlaethol yn cynnig dim cymorth | 7 |
| Diffyg cysylltiad rhyngrwyd / signal ffon | 7 |
| Diffyg biniau yn y pentrefi/trefi | 5 |
| Diffygion ym Mhrosiect Adfywio Bangor | 5 |
| Diffyg bwrlwm ar y stryd fawr | 5 |
| Busnesau ddim yn cefnogi eu gilydd | 4 |
| Problemau casglu sbwriel | 4 |
| Diffyg heddlu ar ein strydoedd | 3 |
| Prysurdeb y lonydd yn nhymor yr haf | 2 |
| Adeiladau ddim yn addas i bwrpas | 2 |
| Gormod o siopau elusen ar y stryd fawr | 1 |
| Diffyg pwyntiau gwefru ceir trydan | 1 |
| Wedi gorfod symud rhan o'r busnes o Gymru oherwydd costau | 1 |
| Angen mwy o arloesedd yn yr ardal | 1 |

# Atodiad B – Camau i gefnogi busnes

| Camau | Nifer |
|---|---:|
| Angen mwy o gefnogaeth ariannol | 53 |
| Gwell cysylltedd rhyngrwyd | 24 |
| Lleihau / peidio codi trethi busnes | 21 |
| System pennu treth busnes angen ei adolygu | 8 |
| Rheoliadau cynllunio angen eu adolygu | 8 |
| Angen gwell rhwydweithiau rhwng busnesau lleol | 8 |
| Y Cyngor i gefnogi'r diwydiant twristiaeth | 7 |
| Grantiau i fusnesau wella eu allyriadau carbon | 7 |
| Angen trawsnewid rhai o'r siopau gwag i fod yn eiddo preswyl | 6 |
| Mwy o gefnogaeth efo ceisiadau cynllunio | 6 |
| Caniatâd cynllunio ddim ond i rai mathau o siopau | 5 |
| Angen gwella isadeiledd yr ardal | 5 |
| Byddai llai o dreth busnes yn galluogi ni leihau prisiau i gwsmeriaid | 4 |
| Byddai llai o dreth busnes yn denu mwy o fusnesau i'r stryd fawr | 4 |
| Mwy o gymorth i adeiladau sydd yn rai rhestredig | 4 |
| Gwella cyflwr ein lonydd | 4 |
| Angen gwell signal ffôn | 4 |
| Meysydd parcio gwell / rhatach | 3 |
| Mwy o finiau / glanhau ein strydoedd | 3 |
| Llawer gormod o unedau mewn cyflwr gwael ar y stryd fawr | 3 |
| Gwella trafnidiaeth gyhoeddus | 3 |
| Grantiau sydd ddim yn ddibynnol dreth busnes | 3 |
| Canolfan Ymwelwyr | 2 |
| Peidio cyflwyno treth twristiaeth | 2 |
| Mwy o atyniadau i ymwelwyr | 2 |
| Gwell cysylltiadau teithio rhwng gogledd a de Cymru | 2 |
| Cymorth i fusnesau sy'n cael eu heffeithio gan waith e.e. gwaith ar ffyrdd, y Grid Cenedlaethol | 2 |
| Gwella Marina Pwllheli | 2 |
| Cael gwared â Pharc Cenedlaethol Eryri | 1 |
| Caniatáu cerbydau ar y stryd fawr | 1 |
| Croesawu Erthygl 4 | 1 |
| Mwy o bwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan | 1 |
| Angen gwella mynediad i siopau e.e. rampiau | 1 |
| Mwy o gefnogaeth i hyrwyddo ein busnes | 1 |
| Llai o HMO's yn yr ardal | 1 |
| Angen cymorth ariannol i allu cynnig prentisiaethau | 1 |

# Atodiad C – Rhesymau dros newid yn nhrosiant y busnes

| Cynnydd mewn trosiant | Nifer |
|---|---|
| Mwy o ymwelwyr i'r ardal | 8 |
| Codi prisiau | 8 |
| Gofyn uwch am y gwasanaeth | 4 |
| Gwell marchnata | 2 |
| Gweithio yn galed | 2 |
| Gwell cymorth ar ôl symud rhan o'r busnes dramor | 1 |

| Gostyngiad mewn trosiant | Nifer |
|---|---|
| Costau Byw - pobl gwario llai | 21 |
| Costau ychwanegol i gydymffurfio efo rheolau newydd | 14 |
| Gostyngiad yn y nifer ymwelwyr | 13 |
| Llai yn siopa ar y stryd fawr bellach | 11 |
| Ymwelwyr yn credu nad oes croeso iddynt bellach | 10 |
| Tywydd gwael | 10 |
| Dim digon o gymorth ariannol i fusnesau | 3 |
| Cynnydd mewn costau staffio | 2 |
| Problemau gyda ceisiadau cynllunio | 1 |
| Pobl leol ddim yn cefnogi busnesau lleol | 1 |
| Mwy o gystadleuaeth | 1 |

| Dim newid mewn trosiant | Nifer |
|---|---|
| Costau uwch yn balansio allan unrhyw gynnydd | 9 |
| Heb fod yn marchnata | 2 |